

Cynllun Iaith Gymraeg

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
2024



Contents

Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Ynglŷn ag HSE	4
Cynllun Iaith Gymraeg	5
1. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau	5
2. Cytundebau Trydydd Parti	5
3. Cyfathrebu ag HSE	5
4. Cyhoeddiadau	7
5. Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig	8
6. Digidol a Gwefan	8
7. Recriwtio a Staffio	9
8. Ymgysylltu â'r Cyhoedd	9
9. Cyhoeddusrwydd a Hunaniaeth	10
10. Trefniadau Mewnol	10
11. Monitro, Adborth a Chwynion	11
12. Adolygu a Diwygio'r Cynllun	11
Atodiad A: Geirfa	12

Rhagair

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ymroddedig i amddiffyn pobl a lleoedd, gan helpu pawb i fyw bywydau mwy diogel ac iachach ledled Prydain Fawr. Mae'n bwysig bod ein gwasanaethau a'n gwybodaeth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n gynhwysol i'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. I gefnogi hyn, mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg newydd HSE.

Nod ein Cynllun yw cyflawni'r egwyddorion a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg (1993). Lle bynnag y bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

Mae ein hymagwedd wedi'i llywio gan fewnwelediad a gafwyd gan gydweithwyr ar draws y sefydliad i greu ymagwedd newydd. Byddwn yn parhau i weithio ar yr adborth a dderbyniwyd ac yn croesawu unrhyw adborth gan eraill yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd a gwerth y Gymraeg o fewn HSE ac mae'n bleser gennyf ailgadarnhau ein hymrwymiad iddi.



Sarah Albon

Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Mae ein Cynllun wedi'i baratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993). Rydym yn cadw at yr egwyddor, wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal pan fo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i wneud hynny. Pe byddai'r egwyddor hon yn cael ei chynnal yn unol â'n system sgorio a'n Cynllun Gweithredu, byddwn yn rhoi mesurau perthnasol ar waith i gynyddu ein gwasanaethau a'n cyfathrebiadau dros y pedair blynedd nesaf.

Rydym wedi ymrwmo i roi ein Cynllun ar waith yn ystyrlon ac yn croesawu'r cyfle i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn effeithiol ac yn gyson yn unol â'n hamcan strategol o 'HSE Hygyrch'.

Mae'r ymrwymadau isod yn nodi sut y bydd HSE yn cymhwyso egwyddorion y Ddeddf yn unol â'n Cynllun Gweithredu. Gosodir yr holl ymrwymadau yn ôl dyfarniad o'r hyn sy'n rhesymol a chymesur o fewn cyd-destun HSE a chytunwyd arnynt gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar 7 Awst 2024.

Ynglŷn ag HSE

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ymroddedig i amddiffyn pobl a lleoedd, a helpu pawb i fyw bywydau mwy diogel ac iachach. Rydym yn awdurdod gorfodi sy'n gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch yn y gwaith ym Mhrydain Fawr ac yn defnyddio amrywiaeth o ymagweddau er mwyn sicrhau effaith. Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol gyda statws y Goron, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac rydym yn atebol i'w gweinidogion.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill yng Nghymru a ledled Prydain Fawr.

Mae gennym dair swyddfa yng Nghymru: Caerdydd, Caerfyrddin a Wrecsam. Mae cyfanswm ein gweithlu Cymreig yn cynnwys oddeutu 109 o staff, ag oddeutu 5% yn meddu ar sgiliau Cymraeg sylfaenol iawn neu allu uwch (yn gywir ym mis Medi 2023).

Mae rhagor o wybodaeth am HSE ar gael yma: <http://www.hse.gov.uk/aboutus/index.htm>

Cynllun Iaith Gymraeg

1. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau

- 1.1. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau, ein mentrau, a'n gwasanaethau yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, gan ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â'r Cynllun hwn. Mae 'gwasanaethau,' 'polisïau' a 'mentrau' wedi'u diffinio yn [Atodiad A](#).
- 1.2. Byddwn yn cynnwys gofyniad i ystyried y Gymraeg fel rhan o'n proses datblygu polisi.
- 1.3. Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hysbysebu a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt.
- 1.4. Byddwn yn parhau i adolygu ein gwasanaethau er mwyn sicrhau bod ein gallu i ddarparu gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd, effeithiolrwydd ac amseroldeb.

2. Cytundebau Trydydd Parti

- 2.1. Byddwn yn sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hintegreiddio i'n proses gaffael.
- 2.2. Wrth lunio partneriaethau neu gydweithio â sefydliadau eraill, byddwn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'n Cynllun Iaith Gymraeg a'i ofynion.
- 2.3. Bydd contractau neu gytundebau gyda thrydydd partïon yn cynnal gofynion ein Cynllun yng Nghymru. Byddwn yn gweithio'n weithredol gyda'n darparwyr gwasanaeth i gytuno ar ofynion y Gymraeg, gan sicrhau eu bod yn eu deall ac yn cydymffurfio â nhw.

3. Cyfathrebu ag HSE

- 3.1. Byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cyfathrebu ag HSE drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â'n prif wasanaethau neu fel y bo'n briodol. Diffinnir

cyfathrebu fel cyfnewid gwybodaeth, naill ai ar ffurf ysgrifenedig, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb.

- 3.2. Byddwn yn sicrhau bod ffyrdd o gyfathrebu ag HSE yn Gymraeg yn cael eu harddangos yn amlwg, e.e. trwy lofnodion e-bost a phenawdau/troedynnau mewn templedi safonol.

Cyfathrebu Ysgrifenedig

- 3.3. Byddwn yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn ymrwmo i ateb gyda'r un prydlondeb ac ansawdd â'n cynnig Saesneg.
- 3.4. Byddwn yn cadw cofnod o ddewisiadau iaith unigolion, grwpiau a sefydliadau i sicrhau bod pob gohebiaeth â nhw yn y dyfodol yn cyd-fynd â'u dewis. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebiadau electronig.
- 3.5. Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth, bydd y fformat dwyieithog yn safonol lle nad yw dewis iaith yn hysbys.
- 3.6. Byddwn yn defnyddio system sgorio i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyr a gyhoeddir yn Gymraeg.

Cyfathrebu dros y Ffôn

- 3.7. Bydd ein prif system ffôn, a weithredir gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid, yn darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn gweithio'n frwd tuag at wella'r cymorth sydd ar gael i ni yn y Gymraeg.
- 3.8. Bydd galwadau i'n prif rif ffôn yn darparu opsiynau yn y ddwy iaith, gan sicrhau y bydd y person sy'n ffonio yn cael ei gyfarch i mewn ac yn gallu cyrchu'r gwasanaeth gofynnol yn Gymraeg.
- 3.9. Bydd staff eraill sy'n delio â galwadau ffôn gan gwsmeriaid yng Nghymru yn cael eu hannog i ateb galwadau a chael negeseuon llais yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 3.10. Os bydd person sy'n ffonio yn cysylltu'n uniongyrchol â chydweithiwr nad yw'n gallu parhau â'r sgwrs yn Gymraeg, gwneir ymdrech resymol i drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg addas.
- 3.11. Os na fydd cydweithiwr addas ar gael, bydd y person sy'n ffonio yn cael cynnig y dewis o dderbyn galwad yn ôl yn Gymraeg cyn gynted â phosibl; parhau â'r alwad yn Saesneg; neu gyflwyno eu hymholiad yn ysgrifenedig.

- 3.12. Ar gyfer galwadau i linellau uniongyrchol mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru, nid yw'n ymarferol cynnal galwadau ffôn yn Gymraeg oherwydd cyfyngiadau daearyddol.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 3.13. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a arweinir gan HSE yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn gwahodd mynychwyr i'n hysbysu ymlaen llaw beth yw eu dewis iaith.
- 3.14. Byddwn yn hysbysu mynychwyr pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn unol â'r Cynllun hwn a byddwn yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod cyfathrebiadau ysgrifenedig cysylltiedig ar gael yn unol â'n system sgorio.
- 3.15. Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer safonol yw darparu siaradwyr Cymraeg cymwys yn ôl yr angen ac yn ôl argaeledd.

Cyfathrebu Wyneb-yn-Wyneb

- 3.16. Ar gyfer rhyngweithiadau wyneb yn wyneb sydd wedi'u hamserlennu, gall unigolion ddewis sgwrsio â ni yn Gymraeg. Lle bo'n briodol ac yn ymarferol, byddwn yn hwyluso'r dewis hwnnw hyd eithaf ein gallu drwy e.e. darparu staff sy'n siarad Cymraeg neu ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.
- 3.17. Yn achos rhyngweithiad wyneb yn wyneb sydd heb ei drefnu lle mae unigolyn yn dymuno sgwrsio â ni yn Gymraeg, byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i hwyluso hyn, lle bo'n briodol.

4. Cyhoeddiadau

- 4.1. Byddwn yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo deunyddiau i'r cyhoedd yn ddwyieithog lle bo'n briodol ac yn unol â'n system sgorio.
- 4.2. Os oes angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn hytrach nag mewn un ddogfen, bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd.
- 4.3. Ein harfer safonol yw rhyddhau'r ddwy fersiwn gyda hygyrchedd cyfartal. Pan fydd cyhoeddiad yn cael ei lanlwytho i'n gwefan, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei

lanlwytho mor agos at yr un pryd â phosibl ar ôl cyhoeddi'r fersiwn Saesneg terfynol.

5. Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

- 5.1. Byddwn yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig yn ddwyieithog lle bo'n briodol ac yn unol â'n system sgorio. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni perthnasol, rhyngweithiol a gyhoeddir ar-lein.
- 5.2. Os oes angen cyhoeddi ffurflenni Cymraeg a Saesneg/deunydd esboniadol ar wahân, bydd y ddau fersiwn o'r un maint, ansawdd a hygyrchedd.

6. Digidol a Gwefan

- 6.1. Rydym wedi ymrwmo i wella'r ddarpariaeth Gymraeg a phrofiad defnyddwyr y Gymraeg ar ein gwefan yn y tymor hir yn unol â'r Cynllun hwn a'r Cynllun Gweithredu.
- 6.2. Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau Cymraeg a Saesneg, gyda thudalennau Cymraeg wedi'u harwyddo'n glir ac yn hawdd eu cyrchu.
- 6.3. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynnwys Cymraeg, gan sicrhau cydraddoldeb iaith a gwelliant ym mhrofiad defnyddwyr lle bo modd. Byddwn yn asesu'r angen i gyfieithu tudalennau gwe drwy ein system sgorio fewnol¹.
- 6.4. Bydd deunydd sy'n berthnasol i Gymru a/neu sy'n bodloni gofynion system sgorio fewnol HSE fel arfer yn cael ei lanlwytho mor agos at yr un pryd â phosibl ar ôl cyhoeddi'r fersiwn Saesneg derfynol.
- 6.5. Bydd datblygu, newidiadau ac ychwanegiadau i'n gwasanaethau digidol yn ystyried ymarferoldeb dwyieithog a rheolaeth gyfartal o ansawdd yn y ddwy iaith o ddechrau'r broses.
- 6.6. Wrth i ni drosglwyddo i systemau TG newydd neu uwchraddio'r rhai presennol a nodir fel rhai perthnasol trwy asesiad o anghenion defnyddwyr, byddwn yn sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion y Gymraeg.

¹Mae'r system sgorio'n arf gwneud penderfyniadau mewnol i gefnogi cyfieithu cynnwys Cymraeg. Mae'n blaenoriaethu cyfieithu ar sail meini prawf megis effaith gyhoeddus, cyrhaedd y gynulleidfa ac amlder defnydd. Mae hyn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r Cynllun hwn.

- 6.7. Pan gysylltir â ni yn Gymraeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ateb yn Gymraeg os oes angen ateb neu os yw'n briodol yn unol â'r protocolau Saesneg presennol.

7. Recriwtio a Staffio

- 7.1. Byddwn yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch recriwtio dwyieithog, gan sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â gofynion ieithyddol pob swydd ac angen busnes yn unol ag amodau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil . Pan fo sgiliau Gymraeg yn berthnasol i swydd wag, boed yn ddymunol neu'n hanfodol, bydd hyn yn cael ei nodi yn yr hysbyseb swydd.
- 7.2. Byddwn yn cynnal archwiliadau fel y bo'n briodol i sefydlu gallu sefydliadol yn y Gymraeg. Byddwn hefyd yn nodi staff sy'n dymuno dysgu Gymraeg.
- 7.3. Bydd aelodau presennol o staff sydd â sgiliau Gymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni eu dyletswyddau pan ydynt yn gyfforddus yn gwneud hynny.
- 7.4. Byddwn yn cefnogi hyrwyddo gallu Gymraeg mewnol trwy ddarparu adnoddau i wella amlygrwydd.
- 7.5. I gefnogi ein hymrwymiad, byddwn yn hyrwyddo hyfforddiant a chanllawiau sy'n berthnasol i'r Gymraeg i staff perthnasol, gyda chymorth ychwanegol i'r rhai sy'n cysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd.

8. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

- 8.1. Ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd yng Nghymru a gynhelir gan HSE, cynigir cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ôl yr angen, yn seiliedig ar ddewisiadau'r gynulleidfa ac argaeledd cyflwynwyr sy'n siarad Gymraeg. Cyn cynnal seminarau neu ddigwyddiadau cyhoeddus, byddwn yn asesu'r angen am ddarpariaeth Gymraeg, gan ystyried dewis y gynulleidfa ac argaeledd cyflwynwyr Gymraeg eu hiaith.
- 8.2. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion yn ddwyieithog a bydd dogfennau cyfarfodydd ar gael yn Gymraeg ar gais.
- 8.3. Bydd arolygon cyhoeddus ac ymgynghoriadau a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog lle mae angen clir yn unol â'r system sgorio.

- 8.4. Lle bo'n briodol, bydd rhyngweithiadau â'r cyfryngau gan gynnwys datganiadau i'r wasg sy'n benodol i Gymru, ar gael yn ddwyieithog yn unol â'r system sgorio.

9. Cyhoeddusrwydd a Hunaniaeth

- 9.1. Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu ac arddangosfeydd newydd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan ddilyn canllawiau system sgorio.
- 9.2. Bydd ein hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru yn ddwyieithog. Er enghraifft, bydd cardiau gwarant, manylion cyswllt, sloganau, penawdau llythyrau, llofnodion e-bost a manylion safonol eraill yn ymddangos yn y ddwy iaith.
- 9.3. Byddwn yn gwneud hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o'n hymdrechion cyhoeddusrwydd, gyda'r nod o wella amlygrwydd a defnydd o'r Gymraeg yn ein cyfathrebiadau.
- 9.4. Bydd ein holl arwyddion mewn manau cyhoeddus mewn swyddfeydd sy'n eiddo i HSE yng Nghymru yn ddwyieithog, gyda'r testunau Cymraeg a Saesneg yn cael yr un amlygrwydd.

10. Trefniadau Mewnol

- 10.1. Mae HSE yn awdurdodi, yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r mesurau yn y Cynllun hwn yn llawn.
- 10.2. Uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am weithredu'r agweddau perthnasol ar y Cynllun hwn o fewn eu meysydd gwaith. Bydd y tîm Ymgysylltu a Pholisi Datganoli yn cydlynu, monitro ac adolygu gweithredu'r Cynllun hwn a'i Gynllun Gweithredu cysylltiedig.
- 10.3. Byddwn yn hyrwyddo'r Cynllun hwn i'n staff a'r cyhoedd yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn amlwg ar ein gwefan.
- 10.4. Byddwn yn creu adnoddau mewnol ar gyfer staff i hwyluso gweithredu mesurau'r Cynllun hwn.
- 10.5. Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys y byddwn yn eu defnyddio i helpu i gyflawni'r Cynllun hwn pan fo angen y gwasanaethau hyn.

10.6. Bydd yr holl ryngweithiadau cyhoeddus yng Nghymru nad yw'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â nhw'n benodol yn cael eu cynnal yn unol â'i egwyddorion troswaol.

11. Monitro, Adborth a Chwynion

11.1. Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth weithredu'r Cynllun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganfyddiadau i'n Uwch Reolwyr i'w hadolygu, ac yn gweithredu unrhyw argymhellion ar gyfer gwella a wnânt.

11.2. Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno adroddiadau blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, gan fanylu ar ein hymlyniad i amodau'r Cynllun.

11.3. Rydym yn agored i adborth, a gellir cyfeirio unrhyw gwynion am y Cynllun at iaithgymraeg@hse.gov.uk. Gellir uwchgyfeirio materion nad ydynt yn cael eu datrys yn foddhaol i Gomisiynydd y Gymraeg.

12. Adolygu a Diwygio'r Cynllun

12.1. O bryd i'w gilydd, oherwydd newidiadau yn ein rolau, amgylchiadau gweithredol neu ffactorau eraill, efallai y bydd angen i ni ailasesu'r cynllun hwn.

12.2. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r cynllun yn cael eu gweithredu heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

12.3. Byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Atodiad A: Geirfa

Term	Diffiniad
Polisiâu	Canllawiau a gweithdrefnau ffurfiol sy'n cyfarwyddo penderfyniadau, gweithredoedd ac amcanion HSE yn unol â'n swyddogaethau rheoleiddio.
Mentrau	Prosiectau neu raglenni a wneir i gyflawni nodau penodol neu fynd i'r afael â phroblemau penodol.
Gwasanaethau	Gweithgareddau, adnoddau a chyfleusterau a ddarperir i'n deiliaid dyletswydd, rhanddeiliaid a chwsmeriaid i ddiwallu eu hanghenion amrywiol.



Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysonderau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i [wefan yr HSE](#).

© Hawlfraint y Goron. Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [wefan yr HSE](#) am fanylion.

Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 09/24.